



Eich cyf/Your ref P-05-884  
Ein cyf/Our ref KW/06644/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

11 Gorffennaf 2019

Annwyl Gadeirydd

**Diwygiad P-05-884 i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2018 i gynnwys sefydliadau'r DU sy'n gweithredu dramor**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf ynghylch deiseb a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd fy ymateb i'r Pwyllgor ym Mai 2019 yn nodi y byddwn yn gofyn i'm swyddogion ystyried y materion hyn ymhellach, ac maent eisoes wedi gwneud hynny.

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau"), fel y'i diwygiwyd, yn darparu'r sylfaen i Weinidogion Cymru ddynodi cyrsiau israddedig addysg uwch (rheoliad 6). Nid yw cyrsiau *University of London Institute in Paris* ('ULIP') yn bodloni'r meini prawf hyn.

Mae fy swyddogion wedi adolygu'r sefyllfa er mwyn pennu a fyddai'n briodol i ddiwygio'r rheoliadau. Fodd bynnag, y sefyllfa bolisi sylfaenol erioed yw'r ffaith y bydd cyrsiau'n cael eu dynodi os bydd Gweinidogion Cymru wedi'u sicrhau bod y darparwr yn amlwg yn bodloni safonau penodol sy'n diogelu buddiannau myfirwyr a'r pwrs cyhoeddus. Yn achos cyrsiau y tu allan i Gymru sydd wedi'u dynodi yn unol â'r rheoliadau (a elwir yn 'ddynodiad awtomatig'), gwneir hynny drwy ddibynnu ar reoliad a roddir i'r darparwr gan Lywodraeth y DU. Os nad yw'r darparwr wedi'i reoleiddio, ni fydd cyrsiau'r darparwr yn cael eu dynodi'n awtomatig gan Weinidogion Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Mae'r broses o reoleiddio darparwyr yn Lloegr bellach yn cael ei chynnal gan y Swyddfa Fyfyrrwyr, sy'n cadw Cofrestr o ddarparwyr sydd wedi'u rheoleiddio. Gan nad yw ULIP ar y Gofrestr honno ar hyn o bryd, nid wyf yn sicr a yw'r sefydliad wedi'i reoleiddio. Mae fy swyddogion polisi wedi ysgrifennu i'r Swyddfa Fyfyrrwyr ynghylch y mater hwn, ond nid ydynt wedi cael ymateb eto. O'm rhan i, ni fyddai'n addas nac er budd pennaf Cymru inni ddiwygio'r Rheoliadau er mwyn galluogi darparwr nad yw wedi'i reoleiddio i gael cyrsiau wedi'u dynodi.

Gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i ddynodi cwrs o dan y Rheoliadau (rheoliad 8). Mae cyrsiau sy'n cael eu dynodi yn y modd hwnnw ('dynodiad penodol') yn arwain at gyfradd is o gymorth ffioedd. Ond, wrth gwrs, rwy'n barod i ystyried cais am ddynodiad penodol. Gallwch ddod o hyd i bolisi Gweinidogion Cymru ar ddynodiad penodol, gan gynnwys y meini prawf sydd angen eu bodloni yn <https://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/media/196462/specific-course-designation-policy-document-cymraeg.pdf>

Ni chafwyd unrhyw drafodaeth ag ULIP ers imi ysgrifennu atoch ddiwethaf.

Mae angen gwybodaeth bellach am sefyllfa reoleiddio ULIP cyn y gall Llywodraeth Cymru bennu a ellid dynodi cyrsiau'r sefydliad. Yn y cyfamser, gallai ULIP wneud cais am ddynodiad penodol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AC/AM**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education